

MORGAN, JOHN (1743 - 1801), clerigwr

Enw: John Morgan
Dyddiad geni: 1743
Dyddiad marw: 1801
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

O sir Aberteifi. Ysgrifenna'r Parch. G. T. Roberts fod rhestr o offeiriaid esgobaeth Bangor yn 1778 yn dweud bod Morgan, curad Llanberis, yn 38 oed yn y flwyddyn honno - os felly, yn 1740 y ganwyd ef. Hefyd, bod llawysgrif [Cwrtmawr 56iiB](#) (yn Ll.G.C.) yn dwyn yr enw ' John Morgan, Gorsvawr, Lledrod'; efallai mai yno, felly, y ganwyd John Morgan

Bu yn ysgol Ystrad Meurig ac a oedd yn gurad Gwnnws a Lledrod am gyfnod a derfynodd ar ddiwedd 1771. Yn 1772 dilynodd '[Ieuan Brydydd Hir](#)' yng nghuradiaeth Llanberis (ni byddai rheithoriaid Llanrug a Llanberis yn ei gyfnod ef, John Ellis a [Peter Bayly Williams](#), yn gwasnaethu yn Llanberis). Cyflog Morgan oedd £24, ac yr oedd yn byw yn y T -isa; cadwai ysgol y bu '[Dafydd Ddu Eryri](#)' yn ddisgybl ynddi yn 1774.

Daeth John Morgan mor enwog fel pregethwr fel y cyrchai pobl i wrando arno o leoedd pell iawn. Pan ddaeth [David Mathias](#), y cenhadwr Morafiaidd, i ddyffryn Nantlle, cododd cyfeillgarwch rhyngddo a Morgan, a daeth Morgan yn drwm dan ddylanwad Morafiaeth; gohebai â [Mathias](#) pan adawodd hwnnw'r fro; croesawodd ef ar ei ddychweliad (1788) i Gaernarfon; ac y mae'n amlwg iddo (er nad yn swyddogol efallai) dyfu'n Forafiad, oblegid cyfarfyddai'r seiat Forafiaidd fisol yn ei d eaf bob tri mis. Yn 1792, fodd bynnag, aeth yn ddrwg rhyngddynt, ac ymadawodd [Mathias](#) yr eilwaith â Gogledd Cymru. Pan ddaeth y Morafiad Christian Ignatius La Trobe ar daith i Gymru yn 1795, ymwelodd â John Morgan a sylwodd ar ei dlodi dybryd - cafodd gan y Brodyr yn Llundain roi blwydd-dâl o £16 iddo.

Bu farw John Morgan yn 1801; claddwyd ef ar 30 Mawrth, 'yn 58 oed.' Bu'n briod ddwywaith.

Cyhoeddodd ddwy bregeth: [Udgorn dydd grâs](#), etc. (Amwythig, 1773) (pregeth ar ddaeargryn 22 Ebrill 1773) a [Y Testamentwr](#), a gyhoeddwyd yn Nhrefriw gan [Dafydd Jones](#), 1783.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Henry Hughes yn *Cymru (O.M.E.)*, xii, 297-301

am gysylltiadau Morgan â Morafiaeth, gweler 'The Moravian Brethren in North Wales' = *Y Cymmrodor*, xlv (mynegai) gwybodaeth gan y Parch. G. T. Roberts

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [41713597](#)

Wikidata: [Q20733561](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.